

Daearyddiaeth yw'r astudiaeth o leoedd a'r berthynas rhwng pobl a'u hamgylcheddau. Mae daearyddwyr yn archwilio priodweddau ffisegol wyneb y dddear a'r cymdeithasau dynol wedi'u gwasgaru ar ei draws.

Beth allai fod yn bwysicach ar gyfer ein dyfodol?

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

TEITL/UNED 1 – Ein Byd Ffisegol a Dynol.

Yma byddwch yn astudio:

- Dalgylch afonydd ac afonydd.
- Morluniau sy'n newid
- Mudo
- Newid aneddiadau

TEITL/UNED 3 – Ein Byd Dynamig ac Amrywiol.

- Daearyddiaeth anghydraddoldeb
- Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein tywydd
- Tywydd garw
- Newid hinsawdd parhaus.
- Rheoli heriau byd-eang.

SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

ARHOLIAD 1 – Uned 1 Ein Byd Ffisegol a Dynol.

Mae hyn werth 30% o'r cymhwyster ac mae'n arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud.

ARHOLIAD 2 – Uned 3 Ein Byd Dynamig ac Amrywiol.

Mae hyn werth 30% o'r cymhwyster ac mae'n arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud.

Aseidiadau Di-arholiad – Mae 2 dasg Aseiad Di-arholiad:

Uned 2 Datblygu Sgiliau Gwaith Maes sy'n werth 25% o'r cymhwyster.

Byddwch yn cynnal ymweliad gwaith maes yn seiliedig ar destun fel, newid dros amser neu'r amgylchedd, ac yn ymchwilio i hyn mewn lleoliad a ddewisir, gan ysgrifennu ymholiad gwaith maes a fydd yn cael ei gyflwyno i CBAC.

Uned 4 Datrysiadau Cynaliadwy, sy'n werth 15% o'r cymhwyster

Byddwch yn derbyn pecyn adnoddau ar fater daearyddol a byddwch hefyd yn darllen am gefndir ar y mater. Yna byddwch yn ysgrifennu adroddiad yn seiliedig ar fater byd go iawn mewn tasg gwneud penderfyniadau, gan adrodd ar ba mor gynaliadwy y mae'r gwahanol opsiynau yn debygol o fod.

PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLGU?

- Mae daearyddiaeth bob amser yn y newyddion. Byddwch yn datblygu sgiliau i ddehongli, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i wneud penderfyniadau am faterion a phroblemau sy'n effeithio ar bobl a'r amgylchedd.
- Y gallu i gasglu, prosesu, dadansoddi a deall data ansoddol a meintiol a'i gyfleu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Datblygu dadl resymegol a'i chyfleu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Sgiliau gwaith tîm ac arwain.
- Mae astudio daearyddiaeth yn eich caniatáu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd personol, gan gynnwys rheoli amser, delio ag ansicrwydd, hyblygrwydd, creadigrwydd, datrys problemau a hunanhyder.

GYRFAOEDD MEWN DAEARYDDIAETH

Mae cyflogwyr yn edrych yn benodol am y sgiliau trosglwyddadwy a ddatblygir drwy astudio daearyddiaeth. Mae yna gyfoeth o swyddi y gall daearyddwyr eu gwneud sy'n rhychwantu bron pob sector! Mae gan y rhan fwyaf o swyddi elfen o ddaearyddiaeth ynddynt, boed yn feddyg sy'n ymchwilio i ledaeniad clefyd neu beiriannydd sy'n dylunio cynhyrchion i ymdopi â llai o alw am blastig.

“Mae astudio daearyddiaeth yn ymwneud â mwy na dim ond dysgu lleoedd ar fap ar gof. Mae'n ymwneud â deall cymhlethdod ein byd, gan werthfawrogi amrywiaeth y diwylliannau sy'n bodoli ar draws cyfandiroedd. Ac yn y pen draw, mae'n ymwneud â defnyddio'r holl wybodaeth honno i helpu pontio gagendorau a dod â phobl ynghyd.” **Barak Obama.**

DYSGWCH FWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

